**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Bwrdd Pensiwn Lleol

**Cyfarfod aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 27 Gorffennaf 2022 am 10.00am**

**Yn Bresennol:**

**Cynrychiolwyr Cyflogwr**

| | |
|---|---|
| S A Knoyle | C R Doyle |

**Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol**

| | |
|---|---|
| I Guy | David White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

***Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol***

R Broad

---

**1 Ethol Cadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022-2023.**

**Penderfynwyd** ethol Ian Guy yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2022-2023.

**(Bu Ian Guy yn llywyddu)**

**2 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022-2023.**

**Penderfynwyd** ethol David White yn Is-gadeirydd dros dro yn amodol ar drafodaethau pellach yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd.

**3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cynghorwyr C R Doyle ac S A Knoyle gysylltiadau personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd, fel aelodau'r Gronfa Bensiwn.

Datganodd Ian Guy a David White gysylltiadau personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd, fel aelodau'r Gronfa Bensiwn.

Datganodd Karen Cobb, Jeff Dong, Jeremy Parkhouse a Stephanie Williams gysylltiadau personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd, fel aelodau'r Gronfa Bensiwn.

**4 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2022 fel cofnod cywir.

**5 Cynllun Archwilio Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2022.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 Gynllun Archwilio 2022 Archwilio Cymru - Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith yr oedd Archwilio Cymru'n bwriadu ei wneud yn ystod 2022 i ryddhau eu cyfrifoldebau statudol fel archwiliwr allanol, a chyflawni eu rhwymedigaethau dan y Côd Ymddygiad i archwilio ac ardystio a yw datganiadau cyfrifyddu'r Gronfa Bensiwn yn 'wir ac yn deg'.

Amlinellwyd mai diben y cynllun oedd nodi'r gwaith arfaethedig, pryd y byddai'n cael ei wneud, faint y byddai'n ei gostio a phwy fyddai'n gwneud y gwaith. Ychwanegwyd nad oedd unrhyw gyfyngiadau wedi'u gosod ar yr archwilwyr wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad.

Roedd y cynllun hefyd yn amlinellu effaith barhaus COVID-19, archwiliad cyfrifon y gronfa bensiwn, risgiau'r archwiliad ariannol, swyddogaethau archwilio statudol, ffi archwilio, y tîm archwilio a'r amserlen.

Nododd y Cadeirydd yr amserlen ddiwygiedig a nodwyd bod Archwilio Cymru'n bwriadu darparu eu hadroddiad yn hydref 2022.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**6 Cyngor a Sir Abertawe Cronfa Penswn - Datganiad o Gyfrifon Drafft 2021/22.**

Darparodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu'r adroddiad blynyddol a'r datganiad o gyfrifon drafft ar gyfer Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2021/2022.

Amlinellwyd bod Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe bob amser wedi cynhyrchu datganiad o gyfrifon ac adroddiad blynyddol ar wahân mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol dan sylw, a oedd yn destun archwiliad cyhoeddus. Fodd bynnag, mewn ymgynghoriad ag Archwilio Cymru, penderfynwyd cydgrynhoi'r ddwy ddogfen yn un a symleiddio'r broses gynhyrchu/archwilio.

Ychwanegwyd bod Swyddogion wedi cyflwyno adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon drafft wedi'u cwblhau ar gyfer 2021/22 i Archwilio Cymru i ddechrau eu harchwiliad. Roedd Archwilio Cymru wedi awgrymu na fyddent yn dechrau ar eu harchwiliad o Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon drafft y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2020/21 tan fis Medi 2022. Byddai eu hadroddiad SRA 260 dilynol gyda barn a

chanfyddiadau archwilio’n cael ei gyflwyno i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn / y Bwrdd Pensiwn Lleol ar ddiwedd yr archwiliad ym mis Tachwedd 2022.

Atodwyd Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon Drafft Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2021/22 yn Atodiad 1.

Gwnaeth y Bwrdd sylwadau am y canlyniadau ardderchog, y cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn, sut mae'r Gronfa wedi'i hamddiffyn gan ddeddfwriaeth rhag ymyrraeth Llywodraeth Ganolog, yr arian a dalwyd gan y Gronfa i gefnogi'r economi leol a'r angen i amlygu hyn yn y dyfodol.

Diolchwyd i staff yr Adran Gyllid a'u llongyfarch am eu gwaith a'u hymroddiad wrth lunio'r adroddiad a Datganiad o Gyfrifon 2021/22.

**7 Adroddiad am doriadau.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion unrhyw doriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Yn Atodiad A darparwyd manylion y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Pensiwn Lleol ym mis Ebrill 2022. Amlygwyd manylion y toriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr.

**8 Hyfforddiant Ymddiriedolwyr..**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn gofyn am benderfyniad ar raglen hyfforddiant flynyddol ar gyfer aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a'r Bwrdd Pensiwn Lleol a swyddogion y Gronfa Bensiwn.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd yr hyfforddiant a safon ardderchog yr hyfforddiant a ddarparwyd hyd yn hyn. Amlygodd hefyd y buddion o gael sesiynau hyfforddiant ar y cyd ag Aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiwn.

**9 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r Bwrdd wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y bwrdd brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**10 Rhoi'r Strategaeth Buddsoddi ar Waith - Diweddariad.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Bwrdd am y cynnydd a wnaed ar barhad y rhaglen ailddyrannu (dadrisgio) asedau o ecwitïau i asedau sy'n cynhyrchu, a rhoi procsi rhaglen diogelu ecwiti ar waith.

Gwnaeth y Bwrdd sylwadau ar yr ymarfer prisio 3 blynedd sydd ar waith ar hyn o bryd, a'r lefel ariannu gadarnhaol iawn ar 31 Mawrth 2022.

**11 Cynllun y daith i fod yn Sero-net.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu'r cynllun, yr amcanion a'r amserlen ar gyfer dod yn Sero-net.

Roedd y Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu parhaus a'r newyddion cadarnhaol bod y Gronfa'n gwneud cynnydd da tuag at ei tharged o fod yn Sero-net erbyn 3036.

Hefyd nododd y Cadeirydd yr ohebiaeth a gafwyd gan Gyfeillion y Ddaear. Ychwanegwyd y byddai gohebiaeth i Aelodau lleol y Senedd mewn perthynas â thargedau sero-net yn cael ei dosbarthu i'r Bwrdd gan y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151.

**12 Partneriaeth Pensiwn Cymru - Datganiad o Gyfrifon a Ffurflen Archwiliad drafft.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor am Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon Drafft Partneriaeth Pensiwn Cymru 2021/22.

**13 Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor am Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon Drafft Partneriaeth Pensiwn Cymru 2021/22.

**14 Diweddariad am Bartneriaeth Pensiwn Cymru.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn darparu fframwaith ar gyfer rhaglen waith Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar gyfer 2022-2025.

**15 Crynodeb Buddsoddi.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cynnwys y gwerthusiad o asedau a'r perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

**16 Adroddiad(au) yr Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu'r Adroddiad Monitro Buddsoddi ar gyfer Chwarter 1 2022.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y pwyllgor a gofynnwyd cwestiynau amrywiol, ac fe'u hatebwyd yn briodol.

**17 Llythyrau o Ddiolch.**

Cynigiodd y Cadeirydd y dylid anfon llythyrau o ddiolch at y Cynghorydd Alan Lockyer a'r cyn-gynghorydd Peter Jones i ddiolch am eu cyfraniadau fel aelodau blaenorol y Bwrdd Pensiwn Lleol.

**Penderfynwyd** y bydd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â'r Cadeirydd ac yn anfon y llythyrau ymlaen at aelodau blaenorol y Bwrdd Pensiwn Lleol.

**18 Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol.**

Amlygwyd bod cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn Lleol a drefnwyd ar gyfer mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023 yn gwrthdaro â chyfarfodydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.

**Penderfynwyd** y byddai Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn dosbarthu dyddiadau amgen ar gyfer y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.30 p.m.

**Cadeirydd**